

CYFARFOD hybrid **Y CYNGOR**, a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 16eg Mawrth 2022, gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

118. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, A. S. Johnson ac A. J. Rutherford.

119. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 16eg Chwefror 2022 - Rhifau Cofnod 111-117

Mewn perthynas â chofnod rhif 116 (Trwydded Barcio i'r Maer), holodd y Cynghorydd B Mellor os oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud.

Dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn ateb gan Gyngor Sir Ddinbych a bod y mater yn cael ei drafod. Byddai'n adrodd yn ôl unwaith y byddai unrhyw beth i'w adrodd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a **PHENDERFFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Chwefror 2022 - Rhifau Cofnod 47-49

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 2il Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 50-53

Mewn perthynas â chofnod rhif 52 (Ceisiadau 45/2021/0738 – 7 Llys Walsh, 45/2021/0739 – 1 Lon Taylor a 45/2021/0740 – 3 Lon Taylor), adroddodd Clerc y Dref bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi'r ceisiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs Butterfield ei bod yn siomedig o glywed bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cefnogi'r ceisiadau, ac y byddai hi a'i chyd-gynghorwyr yn trafod y mater gyda'r Awdurdod.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.
Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 2il Mawrth 2022 - Rhifau Cofnod 79-87
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

120. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PROSIECT DOLYDD BLODAU GWYLLT

Ymhellach i gofnod rhif 104 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr 2022, croesawodd y Maer Mr Liam Blazey, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod a'i wahodd i annerch yn aelodau.

Ymatebodd Mr Blazey a dweud:

- Nod y prosiect oedd cyflwyno banciau hadau ledled Sir Ddinbych, gan weithio gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol, ysgolion ac unrhyw un a oedd eisiau dolydd blodau gwyllt ar eu tir.
- Roedd y prosiect yn rhan o Bionet a oedd yn gweithio gyda phedair sir yng ngogledd-ddwyrain Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Wrecsam) gyda 710 o laswelltiroedd wedi eu hadnabod fel ardaloedd sy'n addas i'w ehangu.
- Ar ôl newid polisi yn 2019, roedd 78% o'r rhwydaith ymylon ffordd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru nawr wedi eu hymrwymo fel dolydd blodau gwyllt, a fyddai'n cael eu cysylltu ledled y siroedd.
- Mae Sir Ddinbych yn dlawd o ran glaswelltiroedd gan fod y rhan fwyaf wedi eu trosi yn dir amaethyddol ac nid oeddynt bellach yn gartref i rywogaethau cynhenid, ond gobeithid y byddai ehangu'r rhwydwaith ymylon ffordd yn delio gyda hyn.
- Ar ôl dim ond tair blynedd o gael ei rheoli, roedd Beach Road West ym Mhrestatyn yn enghraifft wych o ddôl blodau gwyllt arfordirol, a'r gorau y mae erioed wedi ei gweld.
- Roedd 435 sadfle wedi eu hadnabod ar gyfer dolydd blodau gwyllt ac yn y broses o gael ymweliad i wirio cywirdeb y map.
- Roedd cynghorau eraill yn cysylltu gyda nhw yn rheolaidd ac yn ddiweddar roedd Parc Cenedlaerthol y Cairngorms wedi cysylltu, oll yn awyddus i wneud gwaith tebyg.
- Roedd Splash Point, Hilton Drive, Walnut Crescent, Maes Y Gog, Parc Llys Brenig, y Clwb Rygbi, Gerddi Coroni, Violet Grove, Bryn Cwnin, Cambrian Walk, Clos Gladstone a Marine Lake oll yn safleoedd posibl yn y Rhyl, yn amodol ar ddilysu ar y map a thrafodaeth bellach gyda Strydlun CSDd.

- Mae cynnydd arwyddocaol mewn rhywogaethau cynhenid eisoes yn cael eu cofnodi yn yr ardaloedd sy'n cael eu rheoli eisoes. Mae un yn benodol, y Toothed Medic nawr i'w weld ym Mhrestatyn a'r cyntaf yng Nghymru i gael ei gofnodi.
- Fel ardaloedd arfordirol, roedd safleoedd Splash Point a Marine Lake o bwysigrwydd mawr ar gyfer dolydd blodau gwyllt yn Sir Ddinbych, a gallent fod yn gartref i'r planhigion prinaf o gael eu rheoli yn iawn.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, dywedodd Mr Blazey:

- Byddai blodau gwyllt cynhenid yn tyfu lle roeddynt yn cael cyfle i wneud hynny, ac roedd peidio â thorri'r gwair bob pythefnos yn darparu'r cyfle hwnnw.
- Y cynllun oedd casglu hadau a'u tyfu mewn meithrinfeydd yn Llanelwy, i'w plannu ledled y sir, er bod blodau arfordirol yn eithaf niche ac felly dylid eu canolbwyntio ar safleoedd arfordirol gan y byddent yn ei chael yn anodd tyfu yn fewndirol.
- Roedd sut roedd yr hadau yn mynd yno yn dipyn o ddirgelwch a lwc pur.

Y rheswm pam yr oedd y safle blodau gwyllt ar Marine Drive heb ei boblogeiddio oedd gan fod CSDd yn torri'r gwair bob mis ac felly yn eu rhwystro rhag datblygu. Gyda Rheolwr Strydlun newydd, roedd yn obeithiol y byddai hyn yn stopio, i ganiatau i flodau gwyllt dyfu a hadu.

- Byddai'n croesawu gweithio gydag Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd y Cyngor Tref os oedd yn adnabod safleoedd addas ar gyfer y dolydd, ac yn darparu'r hadau. Roedd hyn eisoes yn digwydd mewn ardaloedd eraill fel rhan o'r cynllun Cyfeillgar i Wenyn.
- Mae gan rai rhannau o Marine Lake y potensial i ddarparu arddangosfa hynod ar ôl blwyddyn 3 o gael ei reoli yn dda.
- Yn anffodus, nid yw'r dolydd yn Sir y Fflint a grybwyllir yn gynhenid i'r ardal ac yn dod o dramor, ac felly'n cynnig dim o ran cadwraeth natur. Yma yn y DU dim ond 1% o'n dolydd cynhenid sydd ar ôl, ac felly nid yw'n syndod nad ydynt yn eu hadnabod.
- Cadwraeth oedd y pwnc. Nid oeddynt yn arddwyr ac nid oedd garddwriaeth yn rhan o'u gwaith. Yn drist, roedd Cymru ar y gwaelod o ran bioamrywiaeth a dyma roedd y gwaith yn delio ag o.
- Mae ailgyflwyno rhywogaethau cynhenid yn cymryd amser ac ar ôl tair blynedd, fel y gallwn weld eisoes, maent yn edrych yn wych ac yn para am gannoedd o flynyddoedd.
- Ni fyddai'r ardal bwnd Marine Lake sy'n rhedeg ar hyd Ffordd Wellington yn cael ei chynnwys er mwyn peidio â chuddio'r llyn oddi wrth barc manwerthu Marina Quay, ac ni fyddai'r ardal o gwmpas yr hen sied yn cael ei chynnwys chwaith ar gais Fforwm Defnyddwyr Marine Lake, fel y gallent gyflwyno blodau gwyllt yno os oeddynt eisiu hynny.

- Byddai'n edrych ar yr ardal ar hyd y trac rheilffordd ar Juniper Way fel safle posibl.
- Gellid treialu'r aethnen ddu gynhenid yn Marine Lake, er y gallai'r dwr hallt fod yn broblem. Roedd ganddynt 30 yn gwreiddio ac felly gellid rhoi cynnig arni yno.

Diolchodd y Maer i Mr Blazey am ei gyflwyniad cynhwysfawr a brwdfrydig, yr oedd yr aelodau i gyd o'i blaidd.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn anfon cyfeiriad ebost Mr Blazey at yr holl aelodau er mwyn iddyn nhw gysylltu ag ef os oeddynt yn meddwl y byddai'n syniad cael dolydd blodau gwyllt yn eu wardiau.

121. **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf, ac yn arbennig at ymgyrch 'Break The Bias' yng Nghanolfan y Merched Gogledd Cymru, yn y Rhyl, a oedd yn ddigwyddiad gwych yn amlygu anghydraddoldeb cyflog i ferched.

Adroddodd y Dirprwy Faer iddi fynychu Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Treffynnon, a oedd yn hyfryd ac roedd wedi cael croeso cynnes yno.

122. **ATODLEN O DALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) AR GYFER 2022/23**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau i'w gwneud ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ac yn gofyn am awdurdod i swario ar yr eitemau a restrir yn Atodiad A.

Cyflenwr a Disgrifiad	Swm £	Amllder
Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl	9,058	Misol
Didyniadau Cyflog CthEM	3,000	Misol
Cynllun Pensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint	3,767	Misol
Cyngor Sir Ddinbych – Y Dreth Gyngor (10 mis)	770.00	Misol
Taliadau banc HSBC	20.00	Misol
BT – ffôn – cyffredinol	863.00	Chwarterol
BT – ffôn – rhynggrwyd	126.00	Chwarterol
Shire Leasing – system ffôn Avaya	337.00	Charterol
Gunsmoke Communications – CC a Digwyddiadau	1,600	Misol

-daliadau - Swyddog Apelio	917.00	Misol
Cyngor ar Bopeth – Swyddog Tlodi Tanwydd	2,000	Chwarterol
Cyngor Sir Ddinbych - benthyciad SC2	32,037	3 y flwyddyn
Partneriaeth TCC Cyngor Sir Ddinbych	15,000	Blynyddol

PENDERFYNWYD cymeradwyo Atodlen A a rhoi awdurdod i wario ar yr eitemau a restrir yn Atodiad A.

123. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (22ain Chswefror – 10fed Mawrth 2022)

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nywddau a'r gwasanaethau
1366	Design 2 Print Ltd	489.00	Argraffu Rhodio'r Rhyl
1367	Bernie's Miles of Smiles	200.00	Peintio wynebau digwyddiad Diwrnod y Maer
1368	Y Cyngor J. L. McAlpine	15.30	Treuliau Dirprwy Faer Chwefror 2022
1369	Gunsmoke Communications	320.00	Ffioedd digwyddiad Diwrnod y Maer
1370	Flying Colours Entertainment Ltd	972.00	Artistiaid digwyddiad Diwrnod y Maer
1371	Cyngor Sir Ddinbych	3,823.00	Taliadau gwasanaeth CG Ffordd CC- Ch4 2021/22
1372	Viking Direct (Office Depot)	22.63	Papurach
1373	Elusen Maer Llandudno	60.00	2x Docyn Cinio Elusen 11eg Mawrth 2022
1374	Blachere UK Ltd	3,260.02	Trwsio goleuadau
1375	Gunsmoke Communications	20.00	Cennin Pedr digwyddiad Gwyl Dewi
1376	Amazon UK	69.99	Bwrdd a chadeiriau ar gyfer digwyddiadau
1377	Cyfieithiad – Rhodio'r Rhyl	42.11	Cyfieithu Rhodio'r Rhyl
1378	Gwasanaeth cyfieithu	202.47	Gwasanaeth cyfieithu
1379	Taflenni a phosteri ar gyfer digwyddiad Diwrnod y Maer	231.00	Taflenni a phosteri ar bgyfer digwyddiad Diwrnod y Maer

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nywddau a'r gwasanaethau
1380	Cyfraniad tuag at ddigwyddiad y Nadolig 2021	4,041.00	Cyfraniad tuag at ddigwyddiad y Nadolig 2021
1381	Contract goleuadau 2021/22	12,444.00	Contract goleuadau 2021/22
	Cyfanswm taliadau	£26,212.52	

Taliadau argyfwng a cherdyn: Gwnaed un taliad argyfwng (Taleb rhif 1373) ac un taliad gyda cherdyn Cyngor Tref y Rhyl (Taleb rhif 1376).

Mewn perthynas â Thaleb Rhif 1381, dywedodd Clserc y Dref nad oedd eto wedi derbyn anfoneb am y contract goleuadau ond bod angen talu cyn diwedd y flwyddyn ariannol, felly gofynnodd am awdurdod i dalu cyn gynted ag y byddai'n dod i mewn, yn amodol ar ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atolden a'i llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law, gydag awdurdod ync ael ei roi i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol parthed Taleb rhif 1381.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

124. ADOLYGIAD RISG BLYNYDDOL 2021/22 A CHYNLLUN AT Y DYFODOL 2022/23

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan yr is-bwyllgor yn ystod 2021/22 a'i gynllun ar gyfer 2022/23 i'w aelodau ei gymeradwyo.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod baich gwaith yr is-bwyllgor yn arwyddocaol a diolchodd i'r aelodau am e hymroddiad parhaus.

Diolchodd yr Aelodau hefyd i Glerc y Dref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r arolwg a'r cynllun at y dyfodol.

125. EITEM YCHWANEGOL GAN AELOD: WELLFED

Dywedodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ei bod yn ddiweddar wedi clywed am gwmni llesiant cymunedol o'r enw WellFed a redir gan Glwyd Alun mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint ac roedd yn fodel amgen i fanciau bwyd.

Roedd WellFed yn darparu prydau bwyd iach wedi eu coginio i rai mewn tldi bwyd, a gofynnodd y Cynghorydd Butterfield am gefnogaeth aelodau i wahodd cynrychiolwyr o'r cwmni i roddi cyflwyniad i'r Cyngor Tref i hysbysu'r aelodau o'u gwaith.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais a bod y Cynghorydd Butterfield yn rhoi'r manylion i Glerc y Dref.

126. EITEM GAN AELOD: PARCIO AR Y PROMENAD

Cyfeiriodd y Cynghorwyr K. R. Jones a B. Mellor at y cynlluniau gan Gyngor Sir Ddinbych i gyflwyno bwnd ar hyd y promenad i rwystro ailadrodd yr hyn ddigwyddodd yr haf diwethaf, pan roedd carafanau a chartrefi modur yn parcio ar y gwair.

Dywedasant, o roddi'r cynnig berbron Grŵp Buddsoddiad Strategol Cyngor Sir Ddinbych, bod y grŵp wedi penderfynu peidio ag ariannu'r cynllun rhwystro.

Dywedodd y Cynghorwyr Jones a Mellor fod preswilydd o'r ward wedi cysylltu â nhw, ynghyd â'u cyd-gynghorydd yn y ward, y Cynghorydd T. Thomas, yn gofyn beth a oedd yn cael ei wneud i rwystro hyn rhag digwydd eto wrth i fisoedd yr haf ddynesu.

Dywedodd y Cynghorydd Thomas ei fod yn obeithiol y byddai cynllun pyst pren syml yn cael ei gyflwyno, a oedd yn fwy cost-ffeithiol a dyma'r opsiwn a oedd orau gan drigolion, gan na fyddai'n tarfu gormod ar eu golygfa.

PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Thomas yn hysbysu'r aelodau o unrhyw ddatblygiadau.

127. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

128. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth ac i gymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

Pwyllgor Cynllunio - 14eg Chwefror 2022 - Rhifau Cofnod 25-30
Strategol a Gweithredol

Is-bwyllgor - 28ain Chwefror 2022 - Rhifau Cofnod 45-52
Asesu Risg

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion ynddynt.

129. TROSGLWYDDO CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr is-bwyllgor Asesu Risg (a ddsbarthwyd ar wahan i'r rhaglen) yn dweud bod y dogfennau trosglwyddo wedi eu derbyn, ond nad oedd cadarnhad bod y Cyngor Tref wedi cyflawni'r holl ymrwymidau statudol eto wedi ei dderbyn. Roedd yr is-bwyllgor, felly, yn argymhell bod y Cyngor yn awdurdodfodai Clerc y Dref a'r Maer (mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac is-gadeirydd yr is-bwyllgor) i lofnodi'r dogfennau trosglwyddo ar ôl derbyn y cadarnhad, i gwblhau'r trosglwyddiad cyn 31ain Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhelliad.

[Datganodd y Cynghorwyr B. Jones a T. Thomas fuddiant eprsonol yn yr eitem uchod gan eu bod yn aelodau o Gymdeithas Gymunedol y Rhyl, a gadael y cyfarfod, a pheidio â chymryd rhan bellach yn y trafodaethau na'r pleidleisio]

130. EITEM GYFRINACHOL YCHWANEGOL: CYNNIG I ADLEOLI SWYDDFA

Adroddodd Clerc y Dref, er bod y symud i 26 Ffordd Wellington yn mynd rhagddo, roedd adeilad arall yn ddiweddar wedi dod yn wag a'i fod wedi cofrestru diddordeb y Cyngor Tref ynddo gyda Chyngor Sir Ddinbych, gan ei fod wedi ei gynnig fel ystyriaeth bosibl gan aelodau yn ôl ym mis Mai 2021.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref yn trefnu ymweliad safle i'r holl aelodau cyn cyfarfod mis Ebrill y Cyngvor os oes modd. Os na, byddai'r ymweliad yn cael ei ohirio tan ar ôl yr etholiadau ym mis Mai, er budd y cyngor newydd.

131. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:

Dyddiad:16.03.2022